# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod**

**Cartref Hen Bobl Yr Hafod**
**Rhos y Dre**
**Aberteifi**
**SA43 1NT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Tachwedd 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Diben yr arolygiad â phwyslais penodol hwn yw adolygu'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth agored ynghylch yr amgylchedd mewnol.

Mae gan y darparwr gynllun gwella ac mae wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth adnewyddu'r amgylchedd. Gohiriwyd y cynnydd o ganlyniad i argaeledd deunyddiau a chontractwyr i gwblhau'r gwaith. Mae'r darparwr wedi bod yn onest ag AGC wrth drafod y cynnydd a'r heriau yn ystod cyfarfodydd diweddaru rheolaidd. Bydd yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau'n agored a byddwn yn profi cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae pawb yn hapus gyda'r gwaith sydd eisoes wedi'i orffen ac yn edrych ymlaen at weld gweddill y gwaith uwchraddio yn cael ei gwblhau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn gwneud pethau y maent yn eu mwynhau. Dywedodd unigolyn wrthym *"It's very nice here and the staff are really good*"*.* Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Gall y bobl siarad â'i gilydd ac â'r staff yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y dewisant. Mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn hamddenol.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac yn mynegi eu barn am y gwasanaeth. Caiff amgylchiadau'r bobl eu hystyried ac mae'r darparwr wedi rhoi cynlluniau newydd ar waith sy'n defnyddio lliwiau sydd wedi'u dylunio i gefnogi'r bobl sy'n ei chael hi'n anodd cofio pethau. Nod y darparwr yw gwella iechyd a llesiant cyffredinol y bobl drwy wella'r amgylchedd.

Mae gan y bobl lais gan fod y darparwr yn eu cynnwys nhw a/neu eu cynrychiolwyr mewn archwiliadau sicrhau ansawdd. Mae'r staff yn cyfrannu syniadau ac awgrymiadau i wella ansawdd y gwasanaeth yn ystod ymweliadau chwarterol. Mae gan y darparwr gynlluniau adnewyddu a fydd yn gwella iechyd a llesiant y bobl. Mae'r darparwr yn monitro cynnydd y cynllun adnewyddu yn ystod ei ymweliadau chwarterol ac yn esbonio'r rhesymau dros unrhyw oedi yn glir.

## Gofal a Chymorth

Nid oedd gofal a chymorth yn rhan o ffocws yr arolygiad hwn, ond dengys ein trafodaethau â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Yr Hafod unwaith eto fod y gwasanaeth yn diwallu anghenion iechyd a llesiant y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda a dywedodd un wrthym *"the residents are great, they are such a happy bunch and that's important"*

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y staff a'r cymorth y maent yn ei gael, a dywedodd un *"the staff are fantastic, they go above and beyond and can't do enough for me".* Mae pawb yn gadarnhaol am y gwaith sydd wedi'i wneud ac yn edrych ymlaen at weld gweddill y rhaglen adnewyddu yn cael ei chwblhau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi gwneud gwelliannau i ddwy lolfa gymunedol a phedair ystafell wely ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r brif lolfa gymunedol yn olau ac yn ffres ac mae bellach yn ganolbwynt i'r bobl gwrdd a chymdeithasu. Mae argaeledd deunyddiau a chontractwyr wedi effeithio ar gynnydd y gwaith. Cam nesaf y rhaglen yw adnewyddu'r brif ardal fwyta ac addurno'r cyntedd a'r ystafelloedd gwely ychwanegol ar y llawr gwaelod.

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau a dywedwyd wrthym *"I'm very happy with my bedroom"* a *"the new colours are great and look lovely".* Mae'r staff wedi'u cymell gan y gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau a'r buddiannau i'r bobl, a dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *"The lounges are lovely and there's more space and it's important because people now have the choice of where to sit".*

Er bod yr Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn parhau'n agored, mae'r darparwr wedi ein hysbysu am y problemau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r gwaith, sydd y tu allan i'w reolaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Nid oedd arweinyddiaeth a rheolaeth yn rhan o'r arolygiad â phwyslais penodol hwn. Fodd bynnag, mae trefniadau da ar waith gan y darparwr i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r adroddiad Rheoliad 73 diweddaraf yn gynhwysfawr ac yn nodi cynnydd y cynllun adnewyddu ac unrhyw rwystrau. Mae'r darparwr wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd ag AGC i drafod yr heriau wrth gwblhau'r gwaith adnewyddu.

Mae'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth ar y safle, a dywedodd y staff wrthym *“[manager] is great”* a *“[manager] is doing a great job and is a very good manager”* a *“I get good support from [manager]”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 44 | Y Safle | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/01/2023